

2017 Rhif (Cy. )

2017 No. (W. )

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A483  
(Stryd Rhosmaen a Heol y Bont,  
Llandeilo, Sir Gaerfyrddin)  
(Amrywiol Gyfyngiadau Aros)  
2017

The A483 Trunk Road (Rhosmaen  
Street & Bridge Street,  
Llandeilo, Carmarthenshire)  
(Various Waiting Restrictions)  
Order 2017

*Gwnaed* 14 Mawrth 2017  
*Yn dod i rym* 17 Mawrth 2017

*Made* 14 March 2017  
*Coming into force* 17 March 2017

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abertawe - Manceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2), 4(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “Deddf 1984”) a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed Powys, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the Swansea - Manchester Trunk Road (A483) (hereinafter referred to as “the trunk road”), in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1) and (2), 4(2) and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(1) (hereinafter referred to as “the 1984 Act”), and after consultation with the Chief Officer of the Dyfed Powys Police, make this Order.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**Title, Interpretation and Commencement**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Mawrth 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Stryd Rhosmaen a Heol y Bont, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin) (Amrywiol Gyfyngiadau Aros) 2017.

1. This Order comes into force on 17 March 2017 and its title is The A483 Trunk Road (Rhosmaen Street & Bridge Street, Llandeilo, Carmarthenshire) (Various Waiting Restrictions) Order 2017.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn –

2. (1) In this Order –

mae i “bathodyn person anabl” (“*disabled person's badge*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000(2);

“disabled person's badge” (“*bathodyn person anabl*”) has the meaning given in regulation 2 of the Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (Wales) Regulations 2000(2);

(1) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) O.S. 2000/1786.

(1) 1984 c.27; sections 1(1), 2(1) and (2) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 17 and 18. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) S.I. 2000/1786.

mae i “disg barcio” (“*parking disc*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchymynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000(3).

(2) At ddiben y Gorchymyn hwn bernir bod cerbyd yn arddangos:

- (i) bathodyn person anabl yn y lle perthnasol:-
  - (a) yn achos cerbyd ac iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r bathodyn yn cael ei arddangos ar y panel deialau neu'r dangosfwrdd fel bod Rhan 1 o'r bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu
  - (b) yn achos cerbyd nad oes iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r bathodyn yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod Rhan 1 o'r bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; a
- (ii) disg barcio yn y lle perthnasol:-
  - (a) yn achos cerbyd ac iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r ddisg yn cael ei harddangos ar y panel deialau neu'r dangosfwrdd fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu
  - (b) yn achos cerbyd nad oes iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r ddisg yn cael ei harddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

## **Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

### **Gwahardd aros ar unrhyw adeg**

**3.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 12, ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

(3) O.S. 2000/1785.

“parking disc” (“*disg barcio*”) has the meaning given in regulation 8(5) of the Local Authorities Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000(3).

(2) For the purpose of this Order a vehicle shall be regarded as displaying:

- (i) a disabled person's badge in the relevant position if:-
  - (a) in the case of a vehicle fitted with a dashboard or fascia panel, the badge is exhibited thereon so that Part 1 of the badge is clearly legible from the outside of the vehicle; or
  - (b) in the case of a vehicle not fitted with a dashboard or fascia panel, the badge is exhibited in a conspicuous position in or on the vehicle so that Part 1 of the badge is clearly legible from outside the vehicle; and
- (ii) a parking disc in the relevant position if:-
  - (a) in the case of a vehicle fitted with a dashboard or fascia panel the disc is exhibited thereon so that the quarter-hour period during which the period of waiting began is clearly legible from outside the vehicle; or
  - (b) in the case of a vehicle not fitted with a dashboard or fascia panel the disc is exhibited in a conspicuous position in or on the vehicle so that the quarter-hour period during which the period of waiting began is clearly legible from outside the vehicle.

(3) Any reference in this Order to a numbered article or Schedule is a reference to the article or Schedule bearing that number in this Order.

## **Prohibitions and Restrictions**

### **Prohibition of waiting at any time**

**3.** Except as provided in article 12, no person shall, except upon the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer, cause or permit any vehicle to wait on the sides of the lengths of the trunk road specified in Schedule 1.

(3) S.I. 2000/1785.

#### **Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho ar unrhyw adeg**

4. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 12(1)(a), (c), (d), (e), ac (f), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros, llwytho na dadlwytho ar unrhyw un o ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

#### **Gwahardd Aros o ddydd Llun i ddydd Sadwrn rhwng 08:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch a chyfyngu ar aros i 2 awr mewn unrhyw gyfnod o 3 awr rhwng 09:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch ar ddydd Sul**

5. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 12(1), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochr y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 rhwng 08:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, ac am gyfnod sy'n fwy na 2 awr mewn unrhyw gyfnod o 3 awr rhwng 09:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch ar ddydd Sul.

#### **Cyfyngu ar aros i 30 munud mewn unrhyw gyfnod o 60 munud rhwng 09:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Sadwrn ac i 2 awr mewn unrhyw gyfnod o 3 awr rhwng 09:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch ar ddydd Sul**

6. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 12, ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw un o ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 am gyfnod sy'n fwy na 30 munud mewn unrhyw gyfnod o 60 munud rhwng 09:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, ac am gyfnod nad yw'n fwy na 2 awr mewn unrhyw gyfnod o 3 awr rhwng 09:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch ar ddydd Sul.

#### **Gwahardd aros ar unrhyw adeg (parcio i fathodynau glas yn unig)**

7. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 12(1), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd sy'n arddangos bathodyn person anabl, aros ar ochr y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 ar unrhyw adeg.

#### **Llwytho a Dadlwytho yn Unig (04:00 o'r gloch – 07:30 o'r gloch a 10:00 o'r gloch – 15:00 o'r gloch)**

8. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 12(1), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri

#### **Prohibition of Waiting, Loading and Unloading at any time**

4. Except as provided in article 12(1)(a), (c), (d), (e), and (f), no person shall, except upon the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer, cause or permit any vehicle to wait, load or unload on any of the sides of the lengths of the trunk road specified in Schedule 2.

#### **Prohibition of Waiting Monday to Saturday between 08:00 and 18:00 hours and waiting restricted to 2 hours in any period of 3 hours between 09:00 and 18:00 hours on Sunday**

5. Except as provided in article 12(1), no person shall, except upon the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer, cause or permit any vehicle to wait on the side of the length of the trunk road specified in Schedule 3 between 08:00 hours and 18:00 hours on Monday to Saturday, and for a period exceeding 2 hours in any period of 3 hours between 09:00 hours and 18:00 hours on Sunday.

#### **Waiting restricted to 30 minutes in any period of 60 minutes between 09:00 and 18:00 hours Monday to Saturday and to 2 hours in any period of 3 hours between 09:00 and 18:00 hours on Sunday**

6. Except as provided in article 12, no person shall, except upon the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer, cause or permit any vehicle to wait on any of the sides of the lengths of the trunk road specified in Schedule 4 for a period exceeding 30 minutes in any period of 60 minutes between 09:00 hours and 18:00 hours on Monday to Saturday, and for a period exceeding 2 hours in any period of 3 hours between 09:00 and 18:00 hours on Sunday.

#### **Prohibition of waiting at any time (blue badge parking only)**

7. Except as provided in article 12(1), no person shall, except upon the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer, cause or permit any vehicle, other than a vehicle displaying a disabled person's badge, to wait on the side of the length of the trunk road specified in Schedule 5 at any time.

#### **Loading and Unloading Only (04:00 – 07:30 and 10:00–15:00 hours)**

8. Except as provided in article 12(1), no person shall, except upon the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer, cause or permit

na chaniatáu i unrhyw gerbyd lwytho neu ddadlwytho ar unrhyw un o ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 6 ar unrhyw adeg ac eithrio rhwng 04:00 o'r gloch a 07:30 o'r gloch, a rhwng 10:00 o'r gloch a 15:00 o'r gloch, ar unrhyw ddiwrnod.

#### **Llwytho a Dadlwytho yn unig (08:00 o'r gloch – 15:00 o'r gloch)**

9. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 12(1), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd lwytho neu ddadlwytho ar ochr y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 7 ar unrhyw adeg ac eithrio rhwng 08:00 o'r gloch a 15:00 o'r gloch ar unrhyw ddiwrnod.

#### **Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho (15:00 o'r gloch – 04:00 o'r gloch a 07:30 o'r gloch – 10:00 o'r gloch)**

10. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 12(1)(a), (c), (d), (e), ac (f), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros, llwytho na dadlwytho ar unrhyw un o ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 8 ar unrhyw adeg rhwng 15:00 o'r gloch a 04:00 o'r gloch, a rhwng 07:30 o'r gloch a 10:00 o'r gloch ar unrhyw ddiwrnod.

#### **Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho (15:00 o'r gloch – 08:00 o'r gloch)**

11. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 12(1)(a), (c), (d), (e), ac (f), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros, llwytho na dadlwytho ar ochr y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 9 ar unrhyw adeg rhwng 15:00 o'r gloch a 08:00 o'r gloch ar unrhyw ddiwrnod.

#### **Esemptiadau**

12. (1) Ni fydd dim yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10 nac 11 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darnau o'r gefnffordd nac ar ochrau'r gefnffordd y cyfeirir ati yn yr erthyglau hynny cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi:-

- (a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;
- (b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;
- (c) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu

any vehicle to load or unload on any of the sides of the lengths of the trunk road specified in Schedule 6 at any time other than between 04:00 hours and 07:30 hours, and between 10:00 hours and 15:00 hours, on any day.

#### **Loading and Unloading only (08:00-15:00)**

9. Except as provided in article 12(1), no person shall, except upon the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer, cause or permit any vehicle to load or unload on the side of the length of the trunk road specified in Schedule 7 at any time other than between 08:00 hours and 15:00 hours on any day.

#### **Prohibition of Waiting, Loading and Unloading (15:00-04:00 and 07:30-10:00 hours)**

10. Except as provided in article 12(1)(a), (c), (d), (e) and (f), no person shall, except upon the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer, cause or permit any vehicle to wait, load or unload on any of the sides of the lengths of the trunk road specified in Schedule 8 at any time between 15:00 hours and 04:00 hours, and between 07:30 hours and 10:00 hours, on any day.

#### **Prohibition of Waiting, Loading and Unloading (15:00-08:00)**

11. Except as provided in article 12(1)(a), (c), (d), (e) and (f), no person shall, except upon the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer, cause or permit any vehicle to wait, load or unload on the side of the length of the trunk road specified in Schedule 9 at any time between 15:00 hours and 08:00 hours on any day.

#### **Exemptions**

12. (1) Nothing in articles 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10 and 11 shall render it unlawful to cause or permit any vehicle to wait in the lengths of the trunk road or on the sides of the trunk road referred to therein for so long as may be necessary to enable:-

- (a) a person to board or alight from a vehicle;
- (b) goods to be loaded on or unloaded from the vehicle;
- (c) the vehicle, if it cannot conveniently be used for such purpose in any other road, to be used in connection with any of the following operations, namely: -

ragor o'r gweithrediadau a ganlyn, sef: -

- (i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;
  - (ii) symud unrhyw rwystr i draffig;
  - (iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau hynny o'r ffordd; neu
  - (iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darnau hynny o'r gefnffordd neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw linell deagraffig fel y'i diffinnir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003(4);
- (d) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y dibenion hynny ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;
- (e) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y darnau hynny o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddynt; neu
- (f) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu.

(2) Ni fydd dim yn erthyglau 3 a 6 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i gerbyd person anabl sy'n dangos yn y lle perthnasol fathodyn person anabl a disg barcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sy'n gyfrifol am y cerbyd, wedi nodi arnynt yr amser pryd y dechreuodd y cyfnod aros) aros ar unrhyw un o ochrau'r darnau o'r gefnffordd y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny am gyfnod nad yw'n fwy na 3 awr, sef cyfnod y bydd ysbaid o un awr o leiaf rhyngddo a chyfnod blaenorol o aros pan fu'r un cerbyd yn aros ar yr un diwrnod ar unrhyw un neu unrhyw rai o'r darnau hynny o'r gefnffordd.

## Dirymiadau

**13.** Mae Gorchymyn Cefnffordd (yr A40) (Stryd Rhosmaen (Teras y Rheilffordd), Llandeilo, Dyfed) (Gwahardd Aros a Llwytho a Dadlwytho) 1990(5) a Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Stryd Rhosmaen a Heol y Bont, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin) (Amrywiol Gyfyngiadau Aros) 2009(6) drwy hyn wedi eu dirymu.

(4) 2003 p.21.

(5) O.S. 1990/53.

(6) O.S. 2009/1702 (Cy.160).

- (i) building, industrial or demolition operations;
  - (ii) the removal of any obstruction to traffic;
  - (iii) the maintenance, improvement or reconstruction of the said lengths of road; or
  - (iv) the laying, erection, alteration, or repair in, or in land adjacent to, the said lengths of the trunk road of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or any telegraphic line as defined in the Communications Act 2003(4);
- (d) the vehicle, if it cannot conveniently be used for such purposes in any other road, to be used in the service of a local authority or a water authority in pursuance of statutory powers or duties;
- (e) the vehicle to take petrol, oil, water or air from any garage situated on or adjacent to the said length of the trunk road; or
- (f) the vehicle to be used for fire brigade, ambulance or police purposes.

(2) Nothing in articles 3 and 6 shall render it unlawful to cause or permit a disabled person's vehicle which displays in the relevant position a disabled person's badge and a parking disc (on which the driver, or other person in charge of the vehicle, has marked the time at which the period of waiting began) to wait on any of the sides of the lengths of the trunk road referred to therein for a period not exceeding 3 hours, being a period separated by an interval of at least one hour from a previous period of waiting by the same vehicle on the same day on any of those lengths of the trunk road.

## Revocations

**13.** The Trunk Road (A40) (Rhosmaen Street (Railway Terrace), Llandeilo, Dyfed) (Prohibition of Waiting and Loading and Unloading) Order 1990(5) and The A483 Trunk Road (Rhosmaen Street & Bridge Street, Llandeilo, Carmarthenshire) (Various Waiting Restrictions) Order 2009(6) are hereby revoked.

(4) 2003 c.21.

(5) S.I. 1990/53.

(6) S.I. 2009/1702 (W.160).

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

14 Mawrth 2017

*Nina Ley*

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith  
Llywodraeth Cymru

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, one of the Welsh Ministers.

Dated

14 March 2017

*Nina Ley*

Head of Business Unit, Network Management  
Welsh Government

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1

#### Gwahardd aros ar unrhyw adeg

Y darn hwnnw o ochr ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Heol y Bont sy'n ymestyn o bwynt 87 o fetrau i'r de-orllewin o ganol ei chyffordd â Lôn y Llan hyd at bwynt 185 o fetrau i'r de-orllewin o ganol ei chyffordd â Lôn y Llan.

Y darn hwnnw o ochr ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd Rhosmaen sy'n ymestyn o bwynt 28 o fetrau i'r de-orllewin o ganol ei chyffordd â Heol Alan hyd at bwynt 22 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganol ei chyffordd â Heol Alan.

### ATODLEN 2

#### Gwahardd aros, llwytho a dadlwytho ar unrhyw adeg

Y darn hwnnw o ochr ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Heol y Bont sy'n ymestyn o bwynt 74 o fetrau i'r de-orllewin o ganol ei chyffordd â Lôn y Llan hyd at bwynt 25 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganol ei chyffordd â Lôn y Llan.

Y darn hwnnw o ochr ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Heol y Bont sy'n ymestyn o bwynt 3 metr i'r de-orllewin o ganol ei chyffordd â Theras yr Abaty hyd at bwynt 38 o fetrau i'r de-orllewin o ganol ei chyffordd â Theras yr Abaty.

Y darn hwnnw o ochr ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd Rhosmaen sy'n ymestyn o bwynt 3 metr i'r gogledd-ddwyrain o ganol ei chyffordd â Theras yr Abaty hyd at bwynt 142 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganol ei chyffordd â Theras yr Abaty.

Y darn hwnnw o ochr ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd Rhosmaen sy'n ymestyn o bwynt 66 o

## SCHEDULES

### SCHEDULE 1

#### Prohibition of waiting at any time

That length of the eastern side of the trunk road known as Bridge Street which extends from a point 87 metres south west of the centre of its junction with Church Street to a point 185 metres south west of the centre of its junction with Church Street.

That length of the eastern side of the trunk road known as Rhosmaen Street which extends from a point 28 metres south west of the centre of its junction with Alan Road to a point 22 metres north east of the centre of its junction with Alan Road.

### SCHEDULE 2

#### Prohibition of waiting, loading and unloading at any time

That length of the eastern side of the trunk road known as Bridge Street which extends from a point 74 metres south west of the centre of its junction with Church Street to a point 25 metres north east of the centre of its junction with Church Street.

That length of the eastern side of the trunk road known as Bridge Street which extends from a point 3 metres south west of the centre of its junction with Abbey Terrace to a point 38 metres south west of the centre of its junction with Abbey Terrace.

That length of the eastern side of the trunk road known as Rhosmaen Street which extends from a point 3 metres north east of the centre of its junction with Abbey Terrace to a point 142 metres north east of the centre of its junction with Abbey Terrace.

That length of the eastern side of the trunk road known as Rhosmaen Street which extends from a

fetrau i'r de-orllewin o ganol ei chyffordd â Heol Cilgant hyd at bwynt 46 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganol ei chyffordd â Heol Cilgant.

Y darn hwnnw o ochr ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd Rhosmaen sy'n ymestyn o bwynt 25 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol y Garreg Las hyd at bwynt 43 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Heol y Garreg Las.

Y darn hwnnw o ochr ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd Rhosmaen sy'n ymestyn o bwynt 4 metr i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Maes Mwyn hyd at bwynt 72 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Maes Mwyn.

Y darn hwnnw o ochr orllewinol y gefnffordd o'r enw Heol y Bont sy'n ymestyn o bwynt 11 o fetrau i'r de-orllewin o ganol ei chyffordd â Stryd y Brenin hyd at bwynt 157 o fetrau i'r de-orllewin o ganol ei chyffordd â Stryd y Brenin.

Y darn hwnnw o ochr orllewinol y gefnffordd o'r enw Stryd Rhosmaen sy'n ymestyn o bwynt 3 metr i'r gogledd-ddwyrain o ganol ei chyffordd â Stryd Caerfyrddin hyd at bwynt 23 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganol ei chyffordd â Stryd Caerfyrddin.

Y darn hwnnw o ochr orllewinol y gefnffordd o'r enw Stryd Rhosmaen sy'n ymestyn o bwynt 57 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganol ei chyffordd â Stryd Caerfyrddin hyd at bwynt 46 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganol ei chyffordd â Heol Newydd.

Y darn hwnnw o ochr orllewinol y gefnffordd o'r enw Stryd Rhosmaen sy'n ymestyn o bwynt 27 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol y Garreg Las hyd at bwynt 40 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Heol y Garreg Las.

Y darn hwnnw o ochr orllewinol y gefnffordd o'r enw Stryd Rhosmaen sy'n ymestyn o bwynt 4 metr i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Maes Mwyn hyd at bwynt 23 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Maes Mwyn.

### ATODLEN 3

**Gwahardd aros o ddydd Llun i ddydd Sadwrn rhwng 08:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch a chyfyngu ar aros i 2 awr mewn unrhyw gyfnod o 3 awr rhwng 09:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch ar ddydd Sul**

Y darn hwnnw o ochr ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Heol y Bont sy'n ymestyn o bwynt 38 o fetrau i'r de-orllewin o ganol ei chyffordd â Theras yr Abaty hyd at bwynt 48 o fetrau i'r de-orllewin o ganol ei chyffordd â Theras yr Abaty.

point 66 metres south west of the centre of its junction with Crescent Road to a point 46 metres north east of the centre of its junction with Crescent Road.

That length of the eastern side of the trunk road known as Rhosmaen Street from a point 25 metres south west of the centre point of its junction with Heol-Y-Garreg-Las to a point 43 metres north of the centre point of its junction with Heol-y-Garreg-Las.

That length of the eastern side of the trunk road known as Rhosmaen Street from a point 4 metres north of the centre point of its junction with Blende Road to a point 72 metres north of the centre point of its junction with Blende Road.

That length of the western side of the trunk road known as Bridge Street which extends from a point 11 metres south west of the centre of its junction with King Street to a point 157 metres south west of the centre of its junction with King Street.

That length of the western side of the trunk road known as Rhosmaen Street which extends from a point 3 metres north east of the centre of its junction with Carmarthen Street to a point 23 metres north east of the centre of its junction with Carmarthen Street.

That length of the western side of the trunk road known as Rhosmaen Street which extends from a point 57 metres north east of the centre of its junction with Carmarthen Street to a point 46 metres north east of the centre of its junction with New Road.

That length of the western side of the trunk road known as Rhosmaen Street from a point 27 metres south west of the centre point of its junction with Heol-Y-Garreg-Las to a point 40 metres north of the centre point of its junction with Heol-y-Garreg-Las.

That length of the western side of the trunk road known as Rhosmaen Street from a point 4 metres north of the centre point of its junction with Blende Road to a point 23 metres north of the centre point of its junction with Blende Road.

### SCHEDULE 3

**Prohibition of Waiting Monday to Saturday between 08:00 and 18:00 hours and waiting restricted to 2 hours in any period of 3 hours between 09:00 and 18:00 hours on Sunday**

That length of the eastern side of the trunk road known as Bridge Street which extends from a point 38 metres south west of the centre of its junction with Abbey Terrace to a point 48 metres south west of the centre of its junction with Abbey Terrace.

#### **ATODLEN 4**

**Cyfyngu ar aros i 30 munud mewn unrhyw gyfnod o 60 munud rhwng 09:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Sadwrn ac i 2 awr mewn unrhyw gyfnod o 3 awr rhwng 09:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch ar ddydd Sul**

Y darn hwnnw o ochr ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Heol y Bont sy'n ymestyn o bwynt 25 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganol ei chyffordd â Lôn y Llan hyd at bwynt 43 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganol ei chyffordd â Lôn y Llan.

Y darn hwnnw o ochr ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Heol y Bont sy'n ymestyn o bwynt 48 o fetrau i'r de-orllewin o ganol ei chyffordd â Theras yr Abaty hyd at bwynt 68 o fetrau i'r de-orllewin o ganol ei chyffordd â Theras yr Abaty.

#### **ATODLEN 5**

